Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 yn Fanwl

5 Mai 2011 | Ysgrifenwyd gan Roger Scully a Dr Owain ap Gareth

Adroddiad a Dadansoddiad



Cymdeithas Newid Etholiadol

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 yn Fanwl

5 Mai 2011

Adroddiad a Dadansoddiad

Cymdeithas Newid Etholiadol

Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru
Institute of Welsh Politics

Cydnabyddiaeth

Cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio gan yr Athro Roger Scully o Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth, a Dr Owain ap Gareth, Swyddog Ymgyrch ac Ymchwil Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru. Mae'r ddau ohonom yn ddiolchgar iawn am y cymorth a'r adborth a gawsom wrth ddrafftio'r adroddiad hwn. Diolch yn arbennig i Katie Ghose, Ashley De a Magnus Smidak am eu sylwadau a'u cyngor amhrisiadwy. Diolch hefyd i Eleni Simeou am gydlynu'r adroddiad.

Mae'r gwaith ar y ffiniau newydd yn seiliedig ar adroddiad blaenorol gan Lewis Baston ac Owain ap Gareth ar ran y Gymdeithas Newid Etholiadol.

Cynnwys

04	Crynodeb Gweithredol
08	Etholiad Cyffredinol Cymru 2011
16	Canlyniadau 2011 o dan Systemau Pleidleisio Eraill

Crynodeb Gweithredol

Yr etholiadau yn 2011 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y cyntaf i ddigwydd ar ôl cynyddu pwerau deddfu'r corff yn sylweddol wedi refferendwm 3 Mawrth.

Cynhaliwyd etholiadau'r Cynulliad o dan y System Aelodau Ychwanegol (AMS), gyda 40 o seddi etholaethol wedi'u cynnal o dan system y Cyntaf i'r Felin (FPTP), ac 20 o seddi rhestr 'atodol' rhanbarthol a gyfrifwyd drwy fformiwla d'Hondt. Roedd y gyfran o seddi rhestr yn is nag yr oeddent mewn deddfwrfeydd blaenllaw eraill fel yr Alban neu'r Almaen. Y ffordd orau o ddisgrifio'r system hon yw ei galw'n system led-gyfrannol.

O ran y pleidiau, roedd y canlyniadau'n unol â'r disgwyl ar y cyfan. Byddai Plaid Cymru'n siomedig nad oeddent wedi magu momentwm o refferendwm mis Mawrth. Gwnaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ychydig yn well na'r disgwyl, ond roeddent yn ffodus o ennill rhai o'u seddi rhestr.

- Enillodd y Blaid Lafur hanner y seddi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sef cystal â'i pherfformiad gorau yn 2003, ond methodd â chyrraedd mwyafrif llwyr.

- Cafodd y Ceidwadwyr eu hetholiad Cynulliad gorau erioed, a hwythau yn yr ail safle am y tro cyntaf.

- Cafodd Plaid Cymru ei pherfformiad gwaethaf erioed mewn etholiad Cynulliad, gan ennill 11 sedd yn unig, ac am y tro cyntaf hi oedd y drydedd blaid yn y Cynulliad.

- Cafodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu hetholiad Cynulliad gwaethaf erioed, gan lithro islaw chwe sedd am y tro cyntaf.

Cododd rhai materion cyffredinol o'r etholiad:

- Y ganran a bleidleisiodd oedd 42.2%. Roedd hyn yn is nag etholiadau 2007 a 1999, ond yn uwch nag etholiad 2003. O ystyried y pwerau deddfu cynyddol a oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers refferendwm 3 Mawrth, roedd hyn yn siomedig. Fodd bynnag, roedd yn dilyn tueddiadau cyffredinol yn yr Alban ac yn nhri etholiad cyffredinol diwethaf y DU.

- Roedd canlyniadau'r Cynulliad yn llawer mwy cyfrannol na chanlyniadau etholiadau cyffredinol y DU, ond yn llai cyfrannol nag etholiadau Senedd yr Alban oherwydd y gymhareb lai cyfrannol o seddi etholaethol i seddi rhestr yng Nghymru.

- Gostyngodd cynrychiolaeth menywod o 46.7% i 41.7% o'r cyfanswm.

- Bellach, mae dau aelod o leiafrifoedd ethnig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Mohammad Ashgar yn aros yn ei le i'r Ceidwadwyr ar restr ranbarthol Dwyrain De Cymru (lle cafodd ei ethol i Blaid Cymru yn 2007), a Vaughan Gething yn cael ei ethol o'r newydd i'r Blaid Lafur yn 2011.

- Arweiniodd canlyniad da'r Ceidwadwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru at golli eu harweinydd, Nick Bourne, ar y sedd rhestr. Roedd y gwaharddiad parhaus ar 'ymgeisiaeth ddeuol' yn gwneud hyn yn ganlyniad mwy tebygol yng Nghymru nag mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU sy'n defnyddio system AMS.

Byddai canlyniadau'r etholiad yn edrych yn wahanol o dan wahanol systemau pleidleisio.

Mae cwestiynau wedi codi am y system bleidleisio bresennol, wedi'u hysgogi gan bolisi Llywodraeth Glymblaid y DU i leihau nifer seddi San Steffan, a fyddai'n gostwng

nifer seddi San Steffan yng Nghymru i 30. Roedd hyn yn cyflwyno posibilrwydd newid y system bleidleisio ac felly cysylltu etholaethau'r Cynulliad â ffiniau newydd San Steffan, neu gael gwahanol etholaethau i San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai angen i unrhyw newid arfaethedig i'r system bleidleisio ystyried a oes angen cysylltu etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag etholaethau San Steffan.

Dylai hefyd ystyried materion craidd democratiaeth y byddai unrhyw newid yn effeithio arnynt, fel cyfranoliaeth; mathau o aelodau Cynulliad (AC) a etholir a'u rôl; adlewyrchu cymunedau a'u hunaniaeth; ac atebolrwydd ACau i bleidleiswyr.

O ystyried y cynnydd sylweddol mewn pwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, byddai unrhyw newidiadau'n cael effaith sylweddol, o ystyried y byddai gan y rheini a etholir fwy o bwerau wedyn i ddeddfu yng Nghymru. Dyma fyddai manteision y newid hwn:

- Llai o ddryswch i bleidleiswyr o ran peidio â chael gwahanol ffiniau i'r ddwy haen o etholiadau.
- Byddai ardaloedd daearyddol cyfrifoldeb ACau ac ASau'r un fath.
- Haws trefnu pleidiau lle mae'r ardaloedd daearyddol yn cael eu pennu'n debyg.
- Posibilrwydd diwygio'r System Aelodau Ychwanegol (AMS) i fod yn 30 sedd etholaethol i 30 sedd rhestr, yn unol â deddfwrfeydd eraill.

Dyma fyddai'r anfanteision:

- Byddai ffiniau newydd San Steffan yn mynnu newid ffiniau'n amlach, a allai hefyd ddrysu pleidleiswyr.
- Byddai ffiniau newydd San Steffan yn cael effaith niweidiol ar gynrychiolaeth pleidleiswyr, a byddai'n ei gwneud yn anoddach cynrychioli hunaniaeth cymunedau'n gywir. Pe byddent yn cael eu mabwysiadu i'r Cynulliad, byddai'r problemau hyn yn codi i etholaethau newydd y Cynulliad hefyd.
- Mae cwota ffiniau newydd San Steffan am niferoedd cyfartal o bleidleiswyr ym mhob etholaeth yn seiliedig ar gofrestru, ac mae rhai grwpiau'n llai tebygol o fod wedi cofrestru. Er enghraifft, mae grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), grwpiau symudol iawn (fel myfyrwyr) a thenantiaid nad ydynt yn berchen ar eiddo, yn llai tebygol o fod wedi cofrestru. Pe byddai'r Cynulliad yn eu mabwysiadu, byddai'r problemau hyn yn codi i etholaethau newydd y Cynulliad hefyd.
- Byddai'n anoddach cynyddu y Cynulliad i 80 o aelodau, fel y argymhellwyd gan Comisiwn Richard.

Rydym yn annog na ddylai buddiannau partisan reoli'r drafodaeth ar ddewisiadau i'r system bleidleisio yn y Cynulliad, ac y dylai'r drafodaeth ddilyn ymrwymiad y corff datganoledig i gynhwysiant, cydraddoldeb a mwyafrif cymharol.

Byddai unrhyw symudiad i system y Cyntaf i'r Felin (FPTP) yn tanseilio'r ymrwymiad hwn.

Pe byddai etholaethau'r Cynulliad yn cael eu paru ag etholaethau San Steffan, byddem yn argymell newid i System Aelodau Ychwanegol (AMS) 30/30.

Pe byddai etholaethau'r Cynlluniad a San Steffan yn parhau wedi'u dadgyplu, byddem yn dilyn argymhellion Comisiwn Richard o 80 o aelodau, a etholir drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV). Un ffordd syml o newid hyn fyddai paru etholaethau cyfredol y Cynulliad yn 20 o etholaethau a chanddynt bedwar aelod yr un. ■

Etholiad Cyffredinol Cymru 2011

Etholiad 2011 oedd y pedwerydd etholiad ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Yn dilyn refferendwm 3 Mawrth, dyma oedd y Cynulliad cyntaf a etholwyd gyda chymhwysedd deddfwriaethol llawn yn yr 20 maes cyfrifoldeb a ddatganolwyd.[1]

Cynhaliwyd etholiadau'r Cynulliad o dan y System Aelodau Ychwanegol (AMS), gyda 40 o seddi etholaethol a gynhaliwyd o dan system y Cyntaf i'r Felin (FPTP), ac 20 o seddi rhestr plaid 'atodol' rhanbarthol a gyfrifwyd drwy fformiwla d'Hondt. Bydd ymgeiswyr a etholir o'r sedd rhestr yn gwneud hynny'n gyffredinol ar sail eu rhestr plaid (ar gyfer Ceidwadwyr, Plaid Cymru ac ati).

Bwriad y rhestr 'atodol' oedd gwneud iawn am y diffyg cyfranoliaeth sy'n gynhenid yng nghanlyniad y seddi etholaethol ac felly cynhyrchu canlyniad mwy cyfrannol ar draws y gwahanol bleidiau. Pleidleisiodd y pleidleiswyr ar ddau bapur pleidleisio: pleidlais oedd y cyntaf i ddewis eu hymgeisydd drwy osod X wrth ymyl eu hoff ymgeisydd (fel yn etholiad cyffredinol y DU); yr ail, drwy osod X wrth ymyl plaid eu dewis.

Roedd y gyfran o seddi rhestr yn is nag mewn deddfwrfeydd amlwg eraill fel yr Alban nau'r Almaen. Felly, er ei fod yn llawer mwy cyfrannol nag y byddai o dan system y Cyntaf i'r Felin (FPTP) yn unig, nid oedd y canlyniad o dan fersiwn y Cynulliad o AMS yn gwbl gyfrannol.

1. Roedd pleidlais 'le' yn y refferendwm yn golygu bod y Cynulliad wedi symud o Ran 3 i Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan Ran 3, roedd gan y Cynulliad 20 maes cyfrifoldeb a chlytwaith o gymhwysedd deddfwriaethol, a gallai ymgeisio am ragor o bwerau deddfwriaethol gan San Steffan drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (neu LCOs). O dan Ran 4, enillodd y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol llawn yn yr 20 maes a ddatganolwyd. Er bod ei bwerau wedi cynyddu'n sylweddol, dylid nodi nad yw'r Cynulliad yn hawlio'r un pwerau â Senedd yr Alban (sydd â phwerau a ddatganolwyd yn llawn, ar wahân i'r meysydd a neilltuwyd i San Steffan), ac nid oes ganddo chwaith unrhyw bwerau amrywio treth.

Canlyniad Cyffredinol

Canlyniadau Etholaethau



Canlyniadau Rhanbarthol

Yr etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2011 oedd y bedwaredd bleidlais felly ers creu'r Cynulliad ym 1999. Llafur a enillodd hanner y seddi, ond ni hawliodd fwyafrif llwyr. Dyma oedd canlyniad cyffredinol yr etholiad:

Roedd nifer o nodweddion ar y canlyniad hwn yn werth eu nodi:

- Fel ymhob un o dri etholiad blaenorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ni enillodd



yr un blaid fwyafrif cyffredinol yn y siambr 60-sedd. Llwyddodd y Blaid Lafur yn gyffyrddus i barhau i fod y blaid fwyaf yn y Cynulliad, fel y bu drwy gydol y cyfnod ers ei greu. Ond fel yn etholiad 2003, drwy ennill hanner y seddi yn y siambr, gwnaeth fethu o un sedd â chael mwyafrif llwyr dros bob plaid arall.

- Etholiad 2011 Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y cyntaf lle daeth y Ceidwadwyr yn ail o ran seddi a phleidleisiau, a lle daeth Plaid Cymru'n drydydd. Cyn hyn, Plaid Cymru fu'r ail blaid fwyaf yn y siambr.

- Etholiad 2011 oedd y canlyniad gwaethaf erioed i'r Democratiaid Rhyddfrydol, a hwythau'n llithro islaw chwe sedd yn y Cynulliad am y tro cyntaf.

- Fel y bu drwy gydol oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ni lwyddodd yr un blaid heblaw'r 'pedair fawr' i ethol unrhyw ymgeiswyr drwy'r bleidlais rhestr ranbarthol. Ac yn wahanol i 2003 a 2007, ni lwyddodd yr un ymgeisydd o'r fath i ennill sedd etholaethol.

Targedau a Pherfformiad y Pleidiau

I raddau helaeth, roedd y canlyniadau yn 2011 yn unol â'r disgwyl ac yn unol â chanfyddiadau'r arolygon barn cyn yr etholiad. Ond mae arolygon mor eang yn cuddio canlyniadau lleol annisgwyl mewn nifer o achosion.

Llafur: Cafodd y Blaid Lafur ei chanlyniad gwaethaf mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2007. Gyda'r blaid yn wrthblaid ar lefel y DU, ac yn perfformio'n gryf mewn arolygon barn yng Nghymru, roedd ganddi ddisgwyliadau uchel am welliant yn 2011. Cafodd y disgwyliadau hyn eu gwireddu

Plaid	Pleidlais Ethol	Seddi Ethol	Pleidlais Rhestr	Seddi Rhestr	Cyfanswm Seddi
Llafur	42.3% (+10.1)	28 (+4)	36.9% (+7.3)	2	30 (+4)
Ceidwadwyr	25.0% (+2.6)	6 (+1)	22.5% (+1.0)	8 (+1)	14 (+2)
Plaid Cymru	19.3% (-3.1)	5 (-2)	17.9% (-3.1)	6 (-2)	11 (-4)
Democratiaid Rhyddfrydol	10.6% (-4.2)	1 (-2)	8.0% (-3.7)	4 (+1)	5 (-1)
Eraill	2.8% (-5.4)	0 (-1)	14.7% (-1.6)	0	0 (-1)

ar y cyfan, gyda'r blaid yn cyflawni cystal â'i chyfanswm seddi o 2003, ac ar sail cyfran gryfaf erioed y Blaid Lafur o'r bleidlais mewn etholiad datganoledig.

Yn 2007, bu'r Blaid Lafur yn ffodus i ddianc heb golli llawer o seddi, er gwaethaf gostyngiad sylweddol yn ei chyfran o'r bleidlais. Un o ganlyniadau hyn oedd bod Llafur, yn 2011, yn amddiffyn niferoedd mawr o seddi etholaethol a oedd, mae'n debyg, yn ymylol iawn - o'r 12 sedd fwyaf ymylol o 2007, roedd 10 yn perthyn i'r Blaid Lafur. Roedd perfformiad llawer cryfach Llafur yn 2011 yn golygu bod llawer o'r seddi hyn wedi dychwelyd yn syml i fod yn seddi diogel i'r Blaid Lafur unwaith eto. Daeth enillion Llafur yn 2011 yn bennaf drwy berfformiad cryf iawn yn Ne Cymru. Roedd hyn yn galluogi'r blaid i gadw ei holl seddi presennol, adennill Blaenau Gwent o ddwylo annibynnol, a hefyd llwyddo i ennill yng Ngogledd Caerdydd a Chanol Caerdydd. Roedd yr ail un yn arbennig o nodedig: yn 2007 hon oedd y bedwaredd sedd etholaethol fwyaf diogel yng Nghymru. Y tu allan i Dde Cymru, nid oedd perfformiad y Blaid Lafur gyn gryfed. Llwyddodd i gadw ei dwy sedd rhestr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ond yn bennaf gan iddi fethu ag adennill seddi etholaethol ym Mhreseli Sir Benfro ac yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Yn yr un modd, yng Ngogledd Cymru, perfformiodd y Blaid Lafur yn ddigon da i gadw ei seddi presennol yn gyffyrddus, ond ni lwyddodd i ennill yr etholaeth sengl yno, a fyddai wedi rhoi mwyafrif cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddi.

Ceidwadwyr: Cafodd y Ceidwadwyr eu hetholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gorau erioed. Llwyddasant i gynyddu eu cyfran o'r bleidlais a niferoedd eu seddi am y trydydd etholiad yn olynol; ac am y tro cyntaf, daethant i'r amlwg ymhell o flaen Plaid Cymru o ran seddi a phleidleisiau, a hwythau'r ail blaid yn y Cynulliad. Er bod y Ceidwadwyr wedi colli Gogledd Caerdydd i'r Blaid Lafur, llwyddasant i gadw Llafur draw yn syndod o hawdd ym Mhreseli Sir Benfro, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro ac yng Ngorllewin Clwyd. Roed cael Aberconwy oddi wrth Blaid Cymru hefyd yn arwydd o'u perfformiad cryf yng Ngogledd Cymru. Yn wir, drwy lwyddiant arall y cafwyd un o'r darnau prin o newyddion drwg i'r blaid ar noson yr etholiad. Gan ei bod wedi ennill un o seddi blaenorol y Democratiaid Rhyddfrydol, sef Sir Drefaldwyn, a chadw ei seddi etholaethol eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, roedd arweinydd y blaid yn y Cynulliad, Nick Bourne, wedi colli ei sedd. Fodd bynnag, yn Nwyrain De Cymru ac yng Ngorllewin De Cymru, cafwyd perfformiad cryf ar y bleidlais rhestr ac enillodd y Toriaid sedd rhestr ychwanegol.

Plaid Cymru: 2011 oedd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru gwaethaf erioed Plaid Cymru, a hynny o bell ffordd. Er gwaethaf y refferendwm llwyddiannus ym mis Mawrth ar gryfhau pwerau'r Cynulliad, canlyniad a fyddai'n rhoi momentwm i'r blaid ym marn rhai sylwedyddion, collodd Plaid seddi a phleidleisiau i'w phrif wrthwynebwyr. Collwyd Llanelli o drwch blewyn i'r Blaid Lafur; collwyd Aberconwy ychydig yn fwy pendant i'r Ceidwadwyr. Collodd y blaid hefyd ei hail sedd rhestr yng Ngorllewin De Cymru ac yng Nghanol De Cymru.

Democratiaid Rhyddfrydol: Ymhlith sgoriau gresynus ym mhleidlais y DU gyfan, isel iawn oedd y disgwyliadau i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011. Mewn gwirionedd, gwnaeth y blaid ychydig yn well yng Nghymru nag yr oedd rhai'n ei broffwydo. Gostyngodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais ryw bedwar y cant ar draws y pleidleisiau

etholaethol a rhestr. Er bod hyn yn bell o fod yn berfformiad da, roedd yn cymharu'n eithaf ffafriol â'r sefyllfa yn yr Alban, lle'r oedd cyfran y blaid o'r bleidlais wedi gostwng mwy nag wyth y cant ar y bleidlais etholaethol, a mwy na chwech y cant ar y bleidlais ranbarthol. Mewn blwyddyn anodd iawn, roedd cael colled net o un sedd yn unig yn berfformiad rhesymol. Fodd bynnag, roedd colli Canol Caerdydd a Sir Drefaldwyn yn ergydion trwm o hyd; a dylem nodi bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ffodus iawn mewn rhai agweddau: ym mhob un o'r pedwar rhanbarth lle enillwyd seddi rhestr ganddynt (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru a Chanol De Cymru), llwyddasant i ennill y sedd rhestr olaf, a hynny o drwch blewyn - yn hawdd iawn, gallai 2011 fod wedi bod yn llawer gwaeth i'r blaid.

Eraill: Gydag ymchwydd y Blaid Lafur ym Mlaenau Gwent, roedd yn gwbl ddisgwyliadwy y byddai'r un sedd etholaethol nad oedd yn perthyn i blaid fawr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn dychwelyd i'r Blaid Lafur. Yr hyn a awgrymwyd gan rai o'r arolygon barn yn syth cyn yr arholiad, serch hynny, oedd ei bod yn bosibl y gallai pleidiau eraill ennill seddi rhestr. Fel yn 2007, bu UKIP yn sôn yn optimistaidd am ei chyfleoedd, a'r Gwyrddion hefyd yn dangos rhywfaint o obaith. Fodd bynnag, yn ymarferol, methodd y pleidiau hyn unwaith eto â bodloni'r disgwyliadau mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y ganran a bleidleisiodd

Y ganran swyddogol o bleidleiswyr yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 oedd 42.2 y cant. Roedd y ffigur hwn wedi gostwng 1.5 y cant ers y ffigur cywerth yn etholiad 2007; roedd hefyd yn is na'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad agoriadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, ond yn uwch na'r 38.2 y cant a gofnodwyd yn 2003.

Roedd ffigur y ganran a bleidleisiodd yn bendant yn siomedig, yn arbennig o ystyried y byddai gan y Cynulliad fwy o bwerau deddfu nag o'r blaen erbyn hyn, o ganlyniad i refferendwm mis Mawrth. Derbynnir yn gyffredinol y bydd sefydliadau â mwy o bwerau yn denu mwy i bleidleisio gan fod gan bleidleiswyr gymhelliad cryfach i bleidleisio. Mae academyddion yn gwahanu rhwng etholiadau 'trefn un' a 'threfn dau' ar y sail hon. Er nad etholiad 'trefn un' mohono, gellid fod wedi disgwyl y byddai pwerau newydd sylweddol yn arwain at gymhelliad cryfach i bleidleiswyr ddod allan i bleidleisio.

Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad tebyg mewn cyfranogiad yn yr Alban o gymharu â'r etholiad datganoledig blaenorol. Yn sicr hefyd, nid yw problemau'r nifer isel a gostyngol sy'n dod i bleidleisio yn broblemau sy'n benodol i etholiadau datganoledig, nac i Gymru. Mae hyn yn amlwg drwy weld mai'r ganran gyfartalog a bleidleisiodd yn nhri etholiad cyffredinol diwethaf y DU (o 2001 i 2010) oedd 62.0 y cant. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 74.8 y cant yn y tri etholiad blaenorol (o 1987 i 1997).

Cyfranoliaeth

Ni ellir ond ystyried yn briodol mai system bleidleisio led-gyfrannol yw'r System Aelodau Ychwanegol (AMS), fel sy'n cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Er ei bod yn debygol o gynhyrchu canlyniadau llawer mwy cyfrannol, gan amlaf, na'r rheini a gynhyrchir gan system y Cyntaf

i'r Felin (FPTP), nid yw'r ganran isel o seddi rhestr (un o bob tair) o'u cymharu â seddi etholaethol yn ddigon i sicrhau lefel uchel o gyfranoliaeth. (I sicrhau cyfranoliaeth gref, byddai angen i'r ganran o seddi rhestr agosáu at yr hanner). Un nodwedd arall ar AMS fel y'i cymhwyswyd yng Nghymru ac sy'n bwysig ei deall yw bod y niferoedd isel o seddi rhestr a ddyrannwyd i bob rhanbarth (pedair sedd, yn y pum rhanbarth i gyd) yn golygu bod trothwy effeithiol uchel am gynrychiolaeth i blaid. Hynny yw, i ennill unrhyw seddi rhestr roedd angen i blaid ennill cyfran weddol sylweddol o'r bleidlais gyffredinol.

Gellir dangos hyn drwy brofiad y Democratiaid Rhyddfrydol yn 2011. Yn Nwyrain De Cymru, enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol 6.0 y cant o'r bleidlais rhestr. Nid oedd hyn yn ddigon iddynt ennill sedd rhestr. Ac roedd y 6.9 y cant a enillasant yng Ngorllewin De Cymru yn ddigon o drwch blewyn i ennill sedd rhestr (ychydig dros 50 pleidlais oedd ynddi). Fodd bynnag, byddai'r union gyfran o'r bleidlais sydd ei hangen i ennill sedd rhestr yn dibynnu ar ddyraniad y seddi etholaethol.

Yng Ngogledd Cymru yn 2011, roedd 5.9 y cant yn ddigon i'r Democratiaid Rhyddfrydol ennill sedd rhestr, gan fod y tair prif blaid arall yn dosbarthu'r etholaethau rhyngddynt. Byddai'r trothwy effeithiol yn uwch mewn rhanbarthau lle'r oedd un blaid yn rheoli dyraniad seddi etholaethol - fel Gorllewin De Cymru, lle enillodd y Blaid Lafur yr holl seddi etholaethol yn 2011 (fel y bu yn holl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae'r trothwy effeithiol yn gyffredinol is yn yr Alban oherwydd, er bod yr Alban hefyd yn defnyddio AMS, mae nifer y seddi a ddyrennir i bob rhanbarth yn uwch, sy'n egluro pam mae pleidiau llai wedi ennill seddi yn yr Alban. Mae AMS hefyd yn fwy cyfrannol yn yr Alban, gan fod y ganran o seddi rhestr yn fwy.

Gellir cyfrifo cyfranoliaeth canlyniad etholiad 2011 yn gyffredinol drwy ddefnyddio mynegai cyfranoliaeth safonol, sef Mynegai Gallagher. Mae hwn yn rhedeg o 0 (lle mae'r gyfran o seddi a phleidleisiau a enillir gan bob plaid yn cyfateb yn union) i 100 (yr achos digon annhebygol lle mae'r holl seddi'n mynd i bleidiau sydd heb ennill yr un bleidlais!). Mae'r tabl isod yn arddangos sgôr Mynegai Gallagher ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011. Er mwyn cymharu, rhestrir sgoriau'r Mynegai hefyd am etholiadau blaenorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, am dri etholiad cyffredinol diwethaf y DU yng Nghymru, ac am etholiad Senedd yr Alban yn 2011. Gallwn weld, er bod system AMS yn ei hamrywiad Cymreig yn bendant yn fwy cyfrannol ei heffaith na system FPTP, roedd hefyd ychydig yn llai cyfrannol nag yr oedd yn yr Alban. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol ganrannau o seddi rhestr a ddefnyddir yn y system AMS yn y ddwy genedl.

Etholiad	Sgôr Mynegai Gallagher
1999 Cynulliad Cenedlaethol Cymru	7.6
2001 Etholiad Cyffredinol y DU, Cymru	30.5
2003 Cynulliad Cenedlaethol Cymru	8.7
2005 Etholiad Cyffredinol y DU, Cymru	24.3
2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru	9.9
2010 Etholiad Cyffredinol y DU, Cymru	22.8
2011 Cynulliad Cenedlaethol Cymru	9.6
2011 Senedd yr Alban	7.3

Cynrychiolaeth Menywod a Grwpiau Lleiafrif Ethnig

Cyn datganoli, dynion a dueddai i ddylanwadu ar y gynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru

i raddau helaeth iawn. Am amryw resymau, gan gynnwys defnyddio rhestri byr menywod yn unig a dulliau eraill gan rai pleidiau i sicrhau bod niferoedd sylweddol o fenywod yn ymgeisio, nid oedd hyn yn wir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn wir, bu'r Cynulliad yn arweinydd byd o ran cynrychiolaeth y rhywiau, a chyflawnodd gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn etholiad 2003 (yn codi i 51.7 y cant ar ôl isetholiad yn 2005). I'r gwrthwyneb, 17.5 y cant (saith allan o 40) o ASau o Gymru a etholwyd yn etholiad cyffredinol y DU yn 2010, a dim ond 12 o fenywod sydd wedi cael eu hethol i Dŷ'r Cyffredin o Gymru ers i fenywod ennill y bleidlais ym 1918.

Yn 2011, gostyngodd nifer y menywod a etholwyd o 28 i 25 o ACau, neu o 46.7 i 41.7 y cant o'r cyfanswm. Dyma oedd y gyfran isaf o ACau benyw i gael eu hethol ers 1999. Petaem yn ystyried bod un o'r menywod wedi cael ei hethol ar ôl i John Dixon fod yn anghymwys i gymryd ei sedd, byddai wedi bod yn gyfartal â 1999, sef 40 y cant. Un duedd sy'n peri gofid yw bod y gyfran o fenywod sydd newydd gael eu hethol ar ei hisaf erioed, sef 35 y cant (30 y cant petai rhywun am gymryd nifer gwreiddiol y Democratiaid Rhyddfrydol). Dadansoddir hyn yn fanylach mewn adroddiad ar Gynrychiolaeth Menywod gan y Gymdeithas Newid Etholiadol.[2]

Yn 2007, etholwyd yr AC cyntaf o leiafrif ethnig, sef Mohammed Ashgar. Ganwyd ef ym Mhacistan ac mae'n rhugl mewn Wrdw a Phwnjabeg. Cadwodd ei sedd yn 2011 (er ei fod bellach yn sefyll i'r Ceidwadwyr, er iddo ymgeisio i Blaid Cymru yn 2007). Etholwyd hefyd ail AC o leiafrif ethnig, Vaughan Gething, i'r Blaid Lafur yn Ne Caerdydd a Phenarth. Cafodd ei eni yn Zambia, ei fagu yn Dorset ac astudiodd ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd.

Ni etholwyd yr un AC ag anabledd wedi'i ddatgan yn 2011. Bydd oedran a chefndir cymdeithasol ymgeiswyr yn cael eu harchwilio mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Ymgeisiaeth Ddeuol

Mae'r ffaith bod arweinydd y Ceidwadwyr, Nick Bourne, wedi colli ei sedd rhestr oherwydd perfformiad cryf y blaid yn chwedl wag a allai gael ei defnyddio i ymosod ar y system bleidleisio.

Fodd bynnag, nid yw hyn gwbl deg. Yr hyn 'a wnaeth ddiwedd Bourne' oedd y ffaith na allai ond sefyll ar y rhestr, yn dilyn y gwaharddiad ar ymgeisiaeth ddeuol, a ddeddfwyd gan y llywodraeth Lafur ar y pryd yn San Steffan yn 2006. Roedd y newid hwn mewn trefniadau etholiadol yn unigryw i Gymru, ac ni ystyriwyd bod ei angen ar systemau AMS mewn mannau eraill, fel Senedd yr Alban neu Gynulliad Llundain. Hwn oedd yr unig newid i'r trefniadau etholiadol yn Neddf Llywodraethu Cymru 2006, ac roedd yn newid nad oedd Comisiwn Richard wedi'i argymell.

Pan aeth Pwyllgor o ASau ati i archwilio'r gwaharddiad arfaethedig, dywedodd Peter Hain wrthynt y gellid priodoli'r ganran fechan iawn a bleidleisiodd yn etholiadau Cymru yn rhannol i anfodlonrwydd ynghylch ymgeisiaethau deuol. Cyhoeddwyd astudiaeth o agweddau'r Cymry at ymgeisiaeth ddeuol, yn dangos mwyafrif bach iawn yn ei herbyn – ond digwyddodd mai dim ond 47 o bobl yr oedd yr astudiaeth wedi'u holi, ac fe'i comisiynwyd gan AS Llafur.[3]

Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrth Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin nad oedd yr un person wedi codi'r mater yn ei arolygon o farn pleidleiswyr Cymru. Dywedodd 'Nid ydym yn credu bod yr achos o blaid newid wedi cael

2. Adroddiad ar ddod.

3. H Nelson, The Welsh Assembly Election (ERS: 2007), t 34.

ei wneud,' a rhybuddiodd Llafur y byddai'r symudiad yn cael ei ystyried yn un pleidgar. Yn wir, pan bleidleisiodd y Pwyllgor, gwnaeth holl ASau'r Blaid Lafur gefnogi'r gwaharddiad; gwnaeth yr holl ASau eraill ei wrthwynebu.

Ynghyd ag ACau arweiniol eraill, fel Peter Black a David Melding, bu'n rhaid i Nick Bourne ddewis a fyddai'n sefyll mewn etholaeth neu ar y rhestr. O ystyried bod y Ceidwadwyr yn dibynnu ar y rhestr am lawer o'u seddi (hyd 2011), dewisodd yn ddigon synhwyrol sefyll ar y rhestr. Petai wedi gallu sefyll yn y ddau, gallai fod wedi cystadlu am sedd y gellid fod wedi'i hennill yn 2011, fel Sir Drefaldwyn. ■

Canlyniadau 2011 o dan Systemau Pleidleisio Eraill

Mae Llywodraeth Glymblaid y DU wedi ymrwymo i ailddosbarthu ffiniau San Steffan er mwyn cwtogi 10% ar faint Tŷ'r Cyffredin ar gyfer yr etholiad nesaf yn 2015. Bydd seddi'n gallu amrywio ond 5% ar y mwyaf y naill ffordd neu'r llall i'r cwota delfrydol, ac eithrio rhai seddi eithriadol (nad oes yr un ohonynt yng Nghymru). Maint yr etholaeth gyfartalog ar hyn o bryd yw rhyw 77,000 o etholwyr (hynny yw, pobl ar y gofrestr etholiadol). Cafodd y ffiniau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ac adolygiad eu gosod yn wreiddiol i'w rhyddhau ym mis Medi 2011, ond maent wedi'u hoedi bellach hyd fis Ionawr 2012.

Dylai'r newid ffiniau a gynigir i San Steffan gan Lywodraeth y DU gael yr effaith fwyaf yng Nghymru, gan leihau nifer y seddi San Steffan i 30, gan fod seddi Cymru ar gyfartaledd yn llai nag y maent yng ngweddill y DU. Cafodd etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu dadgyplu yn 2010 mewn ymateb i ganlyniadau difwriad y polisi.

Fodd bynnag, mae dadleuon dilys o blaid cysylltu etholaethau'r Cynulliad a San Steffan â'i gilydd. Mae cael gwahanol ffiniau i wahanol etholiadau yn arwain at fwy o ddryswch i'r pleidleiswyr, ac yn ei gwneud yn anodd trefnu pleidiau. Byddai cynrychiolwyr a etholir o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan o'r un ardal yn ymdrin â gwahanol etholaethau, sy'n ychwanegu at y dryswch. Serch hynny, dylid nodi bod ffiniau datganoledig yr Alban a ffiniau San Steffan wedi cael eu dadgyplu ers 2005, heb fawr o ddadlau ynghylch materion felly, mae'n debyg.

Ynghyd â'r datblygiadau hyn, mae cwestiynau wedi codi am y system etholiadol gyfredol a ddefnyddir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Er bod y system bresennol yn caniatáu ar gyfer canlyniad tecach a mwy o fwyafrif cymharol yng ngwleidyddiaeth Cymru nag a fyddai'n bosibl o dan system FPTP, mae rhai materion wedi codi yn ymwneud â system AMS.

Mae'r ffaith bod Nick Bourne, arweinydd y Ceidwadwyr ar drothwy etholiad 2011, wedi colli ei sedd rhestr oherwydd perfformiad cryf ei blaid yn codi cwestiynau dilys - ond, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, yn y gwaharddiad ar 'ymgeisiaeth ddeuol' y mae'r gwir broblem yma. Efallai bod y materion sy'n codi ynghylch cymhwyster dau ymgeisydd o'r Democratiaid Rhyddfrydol a allai fod wedi arwain at isetholiadau, petaent yn ymgeiswyr etholaethol, yn hytrach na throsglwyddo sedd De'r Canolbarth i'r unigolyn nesaf ar y rhestr, hefyd yn anuniongyrchol yn dangos y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o aelodau. Ar gyfer Plaid Cymru, roedd enciliad Mohammad Ashgar i'r Ceidwadwyr yn 2009, ar ôl cael ei ethol ar sedd rhestr plaid, hefyd yn amlygu'r tensiwn rhwng ethol ymgeiswyr fel unigolion ac ethol plaid.

Yn y bennod hon dadansoddwn y trefniadau etholiadol cyfredol a sut daeth y fersiwn arbennig hon o system AMS yn system bleidleisio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn edrych ar ddewisiadau amrywiol i'r dyfodol. Er bod llawer o'r trafod wedi'i ysgogi gan bolisi Llywodraeth y DU o newid ffiniau, nid hwn ddylai fod yr unig fater wrth law wrth drafod sylfaen ein democratiaeth gynrychiadol.

Er bod ffiniau cydffiniol yn ddymunol, gellid dadlau bod materion pwysicach yn y fantol. Mae'r system bleidleisio'n mynd i wraidd ein democratiaeth, a system ag elfen gyfrannol yw'r lleiaf y gallwn ei ddisgwyl gan brosiect datganoli sydd â chynhwysiant, cydraddoldeb a mwyafrif cymharol wrth wraidd ei gyfansoddiad. Mae'n rhaid i'r drafodaeth gynnwys materion cyfranoliaeth, mathau o aelod, adlewyrchu cymunedau a hunaniaeth,

a llinellau atebolrwydd, yn ogystal â thrafod a oes angen cysylltu'r ffiniau ac a yw'n ymarferol gwneud hynny. Mae'n rhaid i gwestiynau am y system bleidleisio ystyried pa system bleidleisio sy'n cydbwyso'r gwahanol faterion hyn orau. Y system sy'n cael ei ffafrio gan y Gymdeithas Newid Etholiadol yn system sy'n cydbwyso gwahanol anghenion a nodau system bleidleisio yn y modd gorau yw'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV).

Roedd Comisiwn Richard yn argymell Cynulliad mwy o 80 aelod (a etholir drwy STV) gyda mwy o allu i ymdrin â chymhwysedd deddfwriaethol mwy yn dilyn y refferendwm llwyddiannus, ar y sail y byddai ei allu'n dod o dan bwysau sylweddol.[1] O ystyried bod y Comisiwn eisoes wedi canfod yn 2004, cyn i unrhyw bwerau gynyddu, fod niferoedd isel yr ACau eisoes yn straen ar y system, bydd hwn yn parhau i fod yn bwynt perthnasol, er yn wleidyddol anodd.

Y System Etholiadol Gyfredol

Byddai'r cynnig am Gynulliad Cenedlaethol Cymru a wrthodwyd yn llethol gan y Cymry yn refferendwm 1979 wedi cael ei ethol drwy fersiwn o system y Cyntaf i'r Felin (FPTP). Dim ond ym 1996 yr ymrwymwyd i ddefnyddio system etholiadol fwy cyfrannol i'r Cynulliad. Roedd hyn yn dilyn newid ym mholisi'r Blaid Lafur ynghylch a fyddai angen refferenda i gadarnhau ei chynigion i ddatganoli Cymru a'r Alban.

Roedd Confensiwn Cyfansoddiadol yr Alban eisoes wedi cytuno i ddefnyddio AMS ar gyfer etholiadau i Senedd yr Alban yn y dyfodol. Rhoddwyd y cynlluniau hyn ar waith ar ôl refferendwm llwyddiannus 1997. Gweithredir AMS yn yr Alban gyda 73 o seddi etholaethol a 56 o seddi rhestr – gan olygu bod y seddi rhestr yn 43 y cant o'r cyfanswm. Mae defnyddio AMS yng Nghymru wedi bod ychydig yn wahanol i'r Alban erioed. Yma, mae cyfran lawer uwch o seddi etholaethol i seddi rhestr: gyda 40 o aelodau etholaethol a dim ond 20 o aelodau Cynulliad yn cael eu hethol drwy'r rhestri rhanbarthol. Mae cael dim ond un o bob tri aelod wedi'i ddyrannu'n gyfrannol drwy'r rhestr yn ganran isel iawn: nid yn unig o'i chymharu â'r Alban, ond hefyd o'i chymharu ag enghreifftiau rhyngwladol eraill lle defnyddir AMS. (Mae hanner llawn holl aelodau Bundestag yr Almaen yn cael eu hethol fel arfer drwy'r rhestr, a 42 y cant o aelodau seneddol Seland Newydd).

Ni roddwyd yr un eglurhad deallusol foddhaol erioed i egluro pam ddylai nifer a chyfran y seddi rhestr yng Nghymru fod mor anarferol o isel. Hwylustod a chyfaddawd gwleidyddol yw'r rheswm. I ennill refferendwm datganoli 1997 – gan droi trechiad llethol 1979 ar ei ben – sylweddolodd arweinydd Llafur yng Nghymru ar y pryd, Ron Davies, y byddai angen cefnogaeth sylweddol a brwdfrydig o rengoedd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ond eto ni fyddai cefnogaeth felly ar gael heblaw bod y Cynulliad arfaethedig am gael ei ethol gan ddefnyddio system etholiadol a oedd yn rhoi cyfle i bleidiau felly fod yn rymoedd sylweddol yn y siambr newydd. Byddai'r mwyafrif yn y blaid Lafur wedi ffafrio defnyddio system etholiadol fwyafrifyddol, nad yw'n gyfrannol. Roedd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dymuno cael system gwbl gyfrannol. Y system a ddaeth i'r amlwg oedd cyfaddawd rhwng y ddau safbwynt hyn, a oedd yn ddigon i uno'r pleidiau y tu ôl i'r ymgyrch i ymladd ac ennill refferendwm 1997.

Gydag un o bob tair sedd rhestr yn unig, nid

1. Adroddiad Comisiwn Richard (gwanwyn 2004), t.80.

yw'r fersiwn o system AMS a ddefnyddir yng Nghymru yn gallu sicrhau hanner cymaint o gyfranoliaeth â'r honno a ddefnyddir yn yr Alban; fodd bynnag, mae'n tueddu i fod yn llawer mwy cyfrannol na'r canlyniadau a gynhyrchwyd gan system FPTP ar gyfer etholiadau cyffredinol yng Nghymru (fel y dangoswyd gan ffigurau Mynegai Gallagher yn gynharach). Yn fyr, efallai mai'r ffordd fwyaf priodol o ddisgrifio'r system fyddai cynrychiolaeth led-gyfrannol.

Systemau amgen

Mae nifer o systemau pleidleisio amgen posibl dan ystyriaeth. Mewn unrhyw drafodaeth bydd y dewis yn dibynnu ar y graddau yr ystyrir bod cysylltu etholaethau'r Cynulliad a rhai San Steffan yn ddymunol ai peidio.

Mae adeiladu o fodel San Steffan 30-sedd tuag at Gynulliad 60-sedd yn rhoi ychydig o ddewisiadau eraill clir y byddai'n weddol syml newid iddynt, sef:

i. Cadw system AMS, ond newid i fodel mwy cyfrannol lle byddai 30 o ACau yn cael eu hethol drwy seddi etholaethol, a 30 drwy seddi rhestr ranbarthol.

ii. Un amrywiad ar AMS fyddai ethol 30 o ACau drwy restr genedlaethol.

iii. Tri deg o seddi gyda dau AC yn cael eu hethol ym mhob etholaeth drwy system Cyntaf i'r Felin (FPTP).

iv. Pymtheg o seddi gan ddefnyddio parau o seddi San Steffan newydd, gyda phedwar AC yn cael eu hethol ym mhob sedd drwy'r Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).

Er bod ffiniau newydd San Steffan yn sbarduno trafodaethau am y dewisiadau eraill hyn, mae pethau eraill i'w hystyried hefyd wrth ddewis y system bleidleisio. Bydd ffiniau newydd San Steffan yn anhyblyg wrth edrych ar hunaniaeth gymunedol, oherwydd y cwota tynn o etholwyr y mae'n ei fynnu. Bydd hefyd yn gofyn ail-lunio'r ffiniau'n rheolaidd, a phe byddai etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gysylltiedig hefyd, byddai unrhyw ansefydlogrwydd yn ergyd hefyd i etholiadau'r Cynulliad.

Argymhellodd Comisiwn Richard ehangu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 80 o aelodau, oherwydd y straen y byddai pwerau deddfwriaethol cynyddol yn ei gael ar ei gynhwysedd. Efallai bydd cysylltu'r system etholiadol â ffiniau newydd San Steffan yn gwneud hyn yn anoddach.

Pe penderfynid peidio â chysylltu ffiniau Cynulliad Cenedlaethol Cymru â ffiniau San Steffan, a phetai nifer yr ACau yn cynyddu, byddem yn argymell dilyn argymhelliad Comisiwn Richard sef hyrwyddo Cynulliad ag 80 o aelodau a etholir drwy STV. Byddai parau o etholaethau cyfredol y Cynulliad i gael 20 o seddi pedwar aelod yn ffordd syml o wneud hyn.

Yr etholaethau a ddefnyddir ar gyfer modelau sy'n seiliedig ar batrwm 30-sedd San Steffan yw'r rheini a gynigiwyd yng nghyhoeddiad y Gymdeithas Newid Etholiadol yn 2010, sef '*Torri a Chysoni*' *a Llywodraethiant Cymru* gan Lewis Baston ac Owain Llŷr ap Gareth. Nid y rhain fydd y ffiniau arfaethedig, a bydd gwahanol ffiniau'n cael gwahanol effeithiau ar y pleidiau. Er eu bod yn wahanol o ran manylion, mae'r model hwn yn rhoi syniad o faint yr etholaethau a'u cyfansoddiad tebygol. Gwnaethpwyd asesiad wedyn o olwg pleidgar y ffiniau ac nid oedd hyn yn ystyriaeth wrth eu creu.

Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar ganlyniadau llywodraeth leol yn 2004 a 2008, yn ogystal â sigladau'r pleidiau mewn gwahanol ardaloedd yn 2011. Lle mae llawer o wardiau annibynnol neu ddiwrthwynebiad, achosir rhai anawsterau – er ei bod yn bosibl casglu gwahanol dueddiadau yn hyderus mewn gwahanol ardaloedd ac amcangyfrif yn unol â hynny. Mae'r rhestri atodol rhanbarthol yn ddiogel i'w hamcangyfrif gan ddefnyddio'r canlyniad rhanbarthol o etholiadau 2011. Mae'r amcangyfrif STV yn seiliedig ar ddata ar drosglwyddiadau a dewisiadau o Arolwg Etholiad Cymru 2011.

Dylid nodi hefyd y gallai pleidleiswyr ymddwyn yn wahanol o dan wahanol systemau pleidleisio - er enghraifft, mae cymhelliad o dan system FPTP i bleidleisio'n dactegol. Gallent hefyd ymddwyn yn wahanol os yw golwg gwleidyddol eu hetholaeth wedi newid, fel y bydd yn digwydd mewn rhai ardaloedd ar ôl newid ffiniau. Mae hefyd yn wir y bydd pleidiau'n mabwysiadu gwahanol strategaethau ymgyrchu o dan wahanol amgylchiadau - er enghraifft, byddai gan y Blaid Lafur mwy o gymhelliad i ymgyrchu ar seddi rhestr lle maent yn fwy tebygol o'u hennill, fel ym model AMS 30/30.

AMS gyda 30 o Seddi Etholaethol a 30 o Seddi Atodol

Mae'r system hon yn debyg i'r system gyfredol ond, yn hytrach nag ethol 60 o ACau drwy 40 o seddi etholaethol ac 20 o seddi rhestr ranbarthol (gyda phedwar AC rhestr yn cael eu hethol o bob rhanbarth), byddai 60 o ACau yn cael eu hethol drwy 30 o seddi etholaethol a 30 o seddi rhestr ranbarthol (gyda chwech AC rhestr yn cael eu hethol o bob rhanbarth).

O dan y system hon, byddai'n syml cysylltu etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru â ffiniau newydd San Steffan, a chadw system AMS.

Byddai gan y system hon y fantais o fod yn fwy cyfrannol oherwydd bod yr elfen rhestr yn fwy. Byddai hefyd yn caniatáu parhau â'r system gyfredol ond byddai'n bosibl gwella rhai o'i phroblemau canfyddedig, sef bod canfyddiad bod gan wahanol fathau o AC wahanol statws.

Dyma ein rhagamcaniad o etholiad 2011 gyda 30 o seddi etholaethol a 30 o seddi rhestr.

	Amcangyfrif Sedd Etholaethol 2011	Amcangyfrif Sedd Rhestr Ranbarthol 2011
Canolbarth A Gorllewin Cymru		
Aberhonddu a Threfaldwyn	Democratiaid Rhyddfrydol (Ceid. yn 2il)	1. Ceidwadwyr
Caerfyrddin	Plaid Cymru	2. Llafur
Ceredigion a Rhaeadr	Plaid Cymru (D. Rh. yn 2il agos)	3. Ceidwadwyr
Gwynedd a Machynlleth	Plaid Cymru	4. Llafur
Llanelli	Llafur (ymylol iawn – P.C. yn 2il)	5. Plaid Cymru
Penfro	Ceidwadol	6. Democratiaid Rhyddfrydol

Gogledd Cymru		
Conwy ac Abergele	Ceidwadwyr	1. Ceidwadwyr
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy	Plaid Cymru (Ceid. yn 2il agos)	2. Ceidwadwyr
Y Fflint a'r Rhyl	Llafur	3. Llafur
Yr Wyddgrug a Shotton	Llafur	4. Democratiaid Rhyddfrydol
Wrecsam	Llafur	5. Plaid Cymru
Ynys Môn a Bangor	Plaid Cymru	6. Ceidwadwyr
Canol De Cymru		
Y Barri a Phenarth	Llafur	1. Ceidwadwyr
Canol Caerdydd	Llafur	2. Plaid Cymru
Dwyrain Gogledd Caerdydd	Llafur (Ceid. yn 2il agos)	3. Ceidwadwyr
Gorllewin Caerdydd	Llafur	4. Democratiaid Rhyddfrydol
Pontypridd ac Aberdâr	Llafur	5. Ceidwadwyr
Dyffryn Elái	Llafur	6. Plaid Cymru

Dwyrain De Cymru		
Blaenau Gwent a Thredegar	Llafur	1. Plaid Cymru
Caerffili	Llafur	2. Ceidwadwyr
Merthyr ac Ystrad Mynach	Llafur	3. Llafur
Trefynwy	Ceidwadwyr	4. Ceidwadwyr
Casnewydd	Llafur	5. Llafur
Torfaen	Llafur	6. Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru		
Pen-y-bont ar Ogwr	Llafur	1. Ceidwadwyr
Castell-nedd ac Aberafan	Llafur	2. Plaid Cymru
Rhondda ac Ogwr	Llafur	3. Ceidwadwyr
Dwyrain Abertawe a'r Fro/ Castell-nedd	Llafur	4. Democratiaid Rhyddfrydol
Gogledd Abertawe a Chasllwchwr	Llafur	5. Plaid Cymru
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	Llafur	6. Llafur

2011	Ceid.	Llaf.	D.Rh.	P.C.
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3	3	2	4
Gogledd Cymru	4	4	1	3
Canol De Cymru	3	6	1	2
Dwyrain De Cymru	3	7	0	2
Gorllewin De Cymru	2	7	1	2
Cymru	15	27	5	13
	(+1)	(-3)	-	(+2)



Fel y disgwylid, mae'r rhaniad 30/30 rhwng seddi rhestr a seddi etholaethol yn dwyn canlyniad mwy cyfrannol na'r rhaniad cyfredol o 40/20. Mae'n lleihau'r fantais systemig y mae Llafur yn ei chael o'r system gyfredol, ond nid yw'n ehangu nifer y pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad. Mae Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr yn ennill seddi o gymharu â'r system gyfredol yn seiliedig ar eu cyfran o'r bleidlais ranbarthol yn 2011.

Mae model 30/30 yn rhoi adlewyrchiad cywir o gyfran plaid gref o'r bleidlais, felly byddai Llafur yn methu â chael mwyafrif ar sail ei pherfformiad yn 2011, gyda 27 o seddi yn lle 30. Mae hyn oherwydd y ffaith bod llai o seddi etholaethol yng nghadarnleoedd Llafur yng Nghanol a Gorllewin De Cymru nag yn y system gyfredol.

Byddai system 30/30 yn golygu y byddai Llafur yn ennill seddi rhestr ym mhob rhanbarth ac eithrio Canol De Cymru – chwech o'u cymharu â'r ddau aelod rhestr ar hyn o bryd. Mae'r feirniadaeth o wahanol fandadau aelodau, er ei bod yn nodwedd ar y system, wedi cael ei dwysáu gan natur bleidgar y rhaniad hwnnw – a'r gwaharddiad ar 'ymgeisiaeth ddeuol' yn achos dan sylw. Petai Llafur yn cael rhaniad mwy cytbwys rhwng y ddau fath o aelodau, gellid lleddfu'r duedd hon tuag at bleidgarwch wrth drafod gwahanol fathau o aelodau i ryw raddau.

Gallai'r cydbwysedd cyfartaledd rhifol rhwng y ddau fath o aelod gael effaith ar ddiwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellid lleihau'r statws anghydraddoldeb canfyddedig rhwng y ddau fath o aelod drwy osod y ddau ar yr un lefel rifol. Ar y llaw arall, gallai ddwysáu tensiynau a chwynion pellach am wahanol feichiau gwaith.

AMS gyda Rhestr Genedlaethol

Un amrywiad ar system AMS yw disodli'r pum rhestr ranbarthol ag un rhestr genedlaethol i Gymru gyfan. Yn yr un modd â'r dewis uchod o system AMS gyda 30 o seddi etholaethol a 30 o aelodau rhestr ranbarthol, byddai'n syml cysylltu etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag etholaethau newydd San Steffan. Dim ond un gwahaniaeth a fyddai, sef y byddai'r 30 aelod rhestr yn cael eu hethol ar un rhestr ar gyfer Cymru gyfan, yn hytrach na chael eu hethol o restri rhanbarthol. Byddai hefyd yn bosibl cadw'r gymhareb gyfredol o 40/20 AMS, ond gydag 20 o aelodau rhestr genedlaethol.

Byddai ethol 30 (neu, yn wir, 20) o ACau drwy un rhestr genedlaethol yn dwyn canlyniad mwy cyfrannol na chanlyniad rhestri rhanbarthol ond, o ystyried y byddai ar un rhestr fawr o 'aelodau cenedlaethol', byddai disgwyl yn effeithiol i hanner Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynrychioli Cymru gyfan, ardal sy'n gawraidd wrth ochr y rhanbarthau cyfredol y mae'r aelodau'n eu gwasanaethu. Nid yw hwn fel petai'n ddewis deniadol, o ystyried hefyd problemau cysylltiadau cludiant a hunaniaethau rhanbarthol Cymru.

Mae'n bosibl cymhwyso trothwy 5%, fel sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Almaen a Seland Newydd, fel ei bod yn rhaid i'r pleidiau a'r ymgeiswyr annibynnol ennill cefnogaeth 5% o'r wlad o leiaf er mwyn cael eu hethol.

Canlyniad AMS gydag 20 o aelodau Rhestr Genedlaethol 2011

Drwy ddefnyddio'r pleidleisiau rhanbarthol a fwriwyd yn 2011 a'u hadio at ei gilydd yn genedlaethol wedyn dyrannu 20 o seddi atodol gan ddefnyddio'r un dull a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn rhestr ranbarthol (d'Hondt), byddem yn cael yr aelodau rhestr canlynol:

Ceidwadwyr	7
Plaid Cymru	5
Democratiaid Rhyddfrydol	3
UKIP	2
Gwyrddion	1
Llafur Sosialaidd	1
BNP	1

O ganlyniad, cyfanswm y seddi a fyddai'n cael eu dyrannu i bob plaid gyda rhestr genedlaethol â 40 o seddi etholaethol ac 20 o seddi rhestr Cymru gyfan yn etholiad y Cynulliad yn 2011 fyddai:



Pe byddai trothwy 5% syml yn cael ei osod i fod yn gymwys am seddi rhestr, byddai'r pleidiau llai'n cael eu diarddel (er byddai UKIP yn agos at y trothwy gyda 4.6% o'r bleidlais) a'r seddi'n cael eu dyrannu i'r pleidiau mwy yn unig:



Llafur	
28 o seddi etholaethol a 0 aelod rhestr	28
Ceidwadwyr	
6 o seddi etholaethol a 9 aelod rhestr	15
Plaid Cymru	
5 o seddi etholaethol a 7 aelod rhestr	12
Democratiaid Rhyddfrydol	
1 sedd etholaethol a 4 sedd rhestr	5

Canlyniad AMS gyda 30 o aelodau Rhestr Genedlaethol 2011

Gan ddefnyddio'r pleidleisiau rhanbarthol a fwriwyd yn 2011 a'u hadio at ei gilydd yn genedlaethol, wedyn dyrannu 30 o seddi atodol gan ddefnyddio'r un dull a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn rhestr ranbarthol (d'Hondt) o'r canlyniadau etholaeth a ragamcanir gyda 30 sedd, byddem yn cael yr aelodau rhestr canlynol:

Ceidwadwyr	11
Plaid Cymru	6
Democratiaid Rhyddfrydol	4
Llafur	3
UKIP	2
Gwyrddion	2
Llaf. Sosialaidd	1
BNP	1

O ganlyniad, dyma a fyddai'r rhagamcaniad ar gyfer cyfanswm y seddi a ddyrennir i bob plaid gyda rhestr genedlaethol â 30 o seddi etholaethol a 30 o seddi rhestr Cymru gyfan yn etholiad y Cynulliad yn 2011:



Llafur	24
Ceidwadwyr	14
Plaid Cymru	11
Democratiaid Rhyddfrydol	5
UKIP	2
Gwyrddion	2
Llaf. Sosialaidd	1
BNP	1

Pe byddai trothwy 5% syml yn cael ei osod i fod yn gymwys am seddi rhestr, byddai'r pleidiau llai'n cael eu diarddel (er byddai UKIP yn agos gyda 4.6% o'r bleidlais) a'r seddi'n cael eu dyrannu i'r pleidiau mwy yn unig:



Llafur	
21 o seddi Etholaethol a 5 sedd rhestr	26
Ceidwadol	
3 o seddi Etholaethol a 13 sedd rhestr	16
Plaid Cymru	
5 o seddi Etholaethol ac 8 sedd rhestr	13
Democratiaid Rhyddfrydol	
1 sedd etholaethol a 4 sedd rhestr	5

Fel yn y rhagamcaniadau am etholiadau blaenorol (Baston ac ap Gareth: 2010), rydym yn canfod y bydd rhestri cenedlaethol heb drothwy yn tueddu i weithio yn erbyn Llafur o'u cymharu â seddi rhestr ranbarthol. Mae hyn oherwydd bod cryfder Llafur yn Ne Cymru'n golygu bod angen lefel uchel iawn o gefnogaeth arni ledled Cymru er mwyn ennill seddi rhestr genedlaethol. Gyda'r model rhanbarthol, nid yw ei dylanwad yng Nghanol a Gorllewin De Cymru yn effeithio ar ei dyraniad o seddi rhestr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, na Gogledd Cymru.

Byddai'r un mor bosibl defnyddio rhestr

genedlaethol â 30 o seddi etholaethol yn rhestr ranbarthol. Fodd bynnag, byddai'n gwanhau atebolrwydd aelodau rhestr, ac yn eu gwneud yn fwy pell oddi wrth eu hetholwyr.

O ystyried bod hyn yn dwysáu'r feirniadaeth sy'n cael ei hanelu'n aml at y rhestr ranbarthol yn y system etholiadol gyfredol a ddefnyddir yn y Cynulliad, mae hwn yn edrych fel dewis annymunol.

FPTP mewn Seddi Etholaethol Dau Aelod

Un cynnig a grybwyllwyd yn ddiweddar yw cael gwared ar yr elfen atodol a symud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru â 60 o aelodau a etholir drwy system y Cyntaf i'r Felin (FPTP) mewn 30 o seddi etholaethol dau aelod, yn dilyn ffiniau newydd San Steffan.

Fel gydag AMS gyda 30 o ACau yn cael eu hethol drwy seddi etholaethol a 30 drwy seddi rhestr, byddai'n syml cysylltu etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag etholaethau San Steffan gan ddefnyddio'r system bleidleisio hon.

Ni fyddai'r ffaith bod dau aelod yn cael eu hethol, yn hytrach na'r un aelod yn etholiadau San Steffan, yn gwneud dim gwahaniaeth i gyfranoliaeth heblaw mewn seddi ymylol iawn, oherwydd, fel y gwelwn mewn seddi aml-aelod FPTP lleol, bydd pleidleiswyr yn aml yn pleidleisio dros yr un blaid fwy nag unwaith. O ystyried bod Llafur wedi ennill 70% o'r seddi etholaethol ar 42% o'r bleidlais yn 2011, nid yw'n syndod bod ein rhagamcaniad am FPTP dau aelod yn ganlyniad tebyg o anghyfartal:



Llafur	41
Plaid Cymru	10
Ceidwadwyr	7
Democratiaid Rhyddfrydol	2

Mewn blwyddyn weddol dda, byddai Llafur yn disgwyl ennill uwch-fwyafrif o ddwy ran o dair, lle gallai newid rheolau sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a hefyd llywodraethu heb fawr o wrthwynebiad effeithiol. Byddai'r gwrthbleidiau'n cael eu lleihau i weddill. Hyd yn oed pan fyddai Llafur yn gwneud yn gymharol wael, fel yn 2007, gallai ddisgwyl yn hyderus hawlio mwyafrif.

Mae llawer o gefnogwyr Llafur yn cydnabod na fyddai hyn yn dda i'r blaid a'i nodau. Mae craffu a dwyn y llywodraeth i gyfrif yn hanfodol i ddemocratiaeth ffyniannus ac nid yw gwrthblaid swyddogol sy'n llai na chwarter maint y blaid lywodraethu yn argoeli'n dda.

Mae ennill dros ddwy o bob tair sedd ar 42% o'r bleidlais fel petai'n anaddas i system aml-blaid a chorff etholedig bach o 60 sedd, ac yn anaddas hefyd i broses ddatganoli lle bu 'cynhwysiant' yn arwyddair ers ei chreu. Byddai symud i system y Cyntaf i'r Felin (FPTP) yn gam yn ôl i ddatganoli ar y cyfan,

gan niweidio nodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gynhwysiant, mwyafrif cymharol a gwahanol fath o wleidyddiaeth i wleidyddiaeth draddodiadol San Steffan, a enillodd gefnogaeth gref yn refferendwm mis Mawrth.

STV pedwar aelod mewn Cynulliad 60 aelod

Byddai'n bosibl paru etholaethau cyfagos o ba 30 etholaeth newydd bynnag a gynigir i gynhyrchu unedau mwy o 15 etholaeth gyda phedwar AC yn cael eu hethol ym mhob un. Er bod hyn ychydig yn fwy cymhleth na system AMS 30-sedd a system FPTP dau aelod, byddai pariadau felly'n ddichonadwy a byddent yn caniatáu ar gyfer mwy o gystadleuaeth a dewis ar y lefel leol am seddi.

Yn wahanol i system FPTP dau aelod, byddai hyn yn gwneud pob etholaeth yn wirioneddol gystadleuol. Byddai pleidiau'n gallu sefyll mwy nag un ymgeisydd, a fyddai'n eu galluogi i fynd ar drywydd polisïau cydbwysedd rhwng y rhywiau ac amrywiaeth.

Gall fod rhai problemau wrth ddefnyddio ffiniau newydd San Steffan at y dibenion hyn. Oherwydd y pwyslais ar gydraddoldeb rhifol yn seiliedig ar etholwyr cofrestredig, ni fydd seddi newydd San Steffan yn adlewyrchu hunaniaeth gymunedol mor gywir ag y gwneir ar hyn o bryd. Gallai'r problemau hyn waethygu pan gaiff yr etholaethau hyn eu paru. Ar y llaw arall, gallai mwy o aelodau i ardal fwy a mwy amrywiol olygu y byddai'r pedwar AC, rhyngddynt, yn cynrychioli buddiannau amrywiol a chystadleuol yr etholaeth yn gywir ac yn fwy effeithiol nag y byddai llai o aelodau i etholaeth.

Oherwydd y cwota tynn o etholwyr cofrestredig, bydd y ffiniau hyn hefyd yn newid yn aml, a allai arwain at ddryswch pellach pan gaiff y ffiniau hyn eu paru.

Dyma amcan bras o ganlyniad posibl STV pedwar aelod, yn seiliedig ar bariadau o'n 30 sedd San Steffan arfaethedig:[2]

Canolbarth a Gorllewin Cymru		Ceid	Llaf.	D. Rh.	P.C.	Ann.
Sir Gaerfyrddin	Caerfyrddin/Llanelli	0	2	0	2	
Canolbarth Cymru	Aberhonddu a Threfaldwyn / Gwynedd a Machynlleth	1	0	1	2	
Gorllewin Cymru	Ceredigion a Phenfro	1	1	1	1	
Gogledd Cymru						
Sir y Fflint	Y Fflint a'r Rhyl/ yr Wyddgrug a Shotton	2	2	0	0	
Afon Menai	Ynys Môn a Bangor/ Conwy ac Abergele	1	1	0	2	
Wrecsam, Dinbych a'r Fro	Dinbych, Llangollen a Dyffryn Conwy/ Wrecsam	1	1	0	2	

Canol De Cymru						
Dwyrain Caerdydd	Canol Caerdydd/ Gogledd-ddwyrain Caerdydd	1	2	1	0	
Bro Taf	Gorllewin Caerdydd / Pontypridd ac Aberdâr	1	3	0	0	
Bro Morgannwg	Y Barri a Phenarth/Dyffryn Elái	1	2	0	1	
Dwyrain De Cymru						
Cymoedd Gwent	Blaenau Gwent a Thredegar/ Merthyr ac Ystrad D	0	3	0	0	
Trefynwy a Thorfaen	Trefynwy a Thorfaen	2	2	0	0	
Casnewydd a Chaerffili	Casnewydd a Chaerffili	1	2	0	1	
Gorllewin De Cymru						
Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda	Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda		0	3	0	1
Castell-nedd ac	Castell-nedd, Aberafan, Dwyrain Abertawe a'r Fro/ Castell-nedd Aberafan	1	2	0	1	
Abertawe	Gogledd Abertawe a Chasllwchwr/ Gorllewin Abertawe a Gŵyr	1	2	1	0	
Cymru		14	28	4	13	1



Mae'r amcangyfrifon hyn yn awgrymu bod y model STV hwn yn debyg o gyfrannol i amcangyfrifon y model AMS 30/30.

Bydd pleidiau'n gallu sefyll ymgeiswyr ac ennill cyfran deg o ACau o etholaethau lleol ledled Cymru, a fyddai'n helpu i sicrhau bod gan bob plaid gynrychiolaeth o wahanol rannau o Gymru, yn wahanol i'r sefyllfa gyda system FPTP. Er byddai hyn yn golygu etholaethau mwy o reidrwydd na dewis FPTP, byddai pob aelod yn cael ei ethol ar yr un sail, ac i ardal ddaearyddol lawer yn llai nag aelodau rhestr ranbarthol.

STV pedwar aelod gyda Chynulliad 80 aelod

Argymhellodd Comisiwn Richard ehangu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 80 o aelodau er mwyn iddo ennill mwy o gymhwysedd deddfwriaethol, a hyrwyddodd ddefnyddio STV. Petai'r cynhwysedd cynyddol hwn yn cael ei ystyried yn fwy dymunol na chysylltu etholaethau'r Cynulliad ag etholaethau San Steffan, byddai STV pedwar aelod yn defnyddio pariadau o etholaethau cyfredol y Cynulliad yn ffordd syml o newid y system etholiadol.

Gall cynyddu nifer yr ACau fod yn wleidyddol anodd ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae lleihau nifer ASau Cymru yn gyfle i gynyddu gwleidyddion yn yr ardaloedd datganoledig, a gallai diwygiadau posibl yn y dyfodol yn Nhŷ'r Arglwyddi ac ar lefel cyngor agor y mater hwn ymhellach i'w drafod.

Byddai gan y model STV 80 sedd rai manteision o'i gymharu â'r model 60 sedd. Byddai etholaethau'n llai, oherwydd nifer cynyddol yr aelodau, ac felly byddai disgwyl iddynt adlewyrchu hunaniaethau cymunedol yn fwy cywir. Yn yr un modd â'r model 60 sedd, bydd pleidiau'n gallu cyflwyno ymgeiswyr ac ennill cyfran deg o ACau o etholaethau lleol ledled Cymru, a fyddai'n helpu i sicrhau bod gan bob plaid gynrychiolaeth o wahanol rannau o Gymru. Byddai pob AC yn cael ei ethol ar yr un sail.

Dyma'r canlyniadau a amcangyfrifir o dan STV pedwar aelod ar gyfer Cynulliad 80-sedd, gan ddefnyddio ein parau etholaeth awgrymedig:[5]

Gwnaethpwyd y tybiaethau canlynol er mwyn amcangyfrif y canlyniadau:

A. Ym mhob pâr o etholaethau, mae plaid yn cael yr union nifer o bleidleisiau dewis cyntaf â chyfanswm y pleidleisiau a gafwyd ar yr etholiad (etholaeth) cyntaf ym mis Mai 2011.

B. Tybir bod pob plaid yn sefyll tri ymgeisydd am bob sedd.

C. I ddechrau, mae cyfanswm pleidleisiau'r blaid yn cael ei rannu rhwng y tri ymgeisydd ar y cyfrannau canlynol: 0.7, 0.2, 0.1.

D. Tybir bod pob pleidleisiwr yn trosglwyddo pleidleisiau i ymgeiswyr o'r un blaid i ddechrau.

E. Os caiff ymgeiswyr un blaid eu dileu i gyd o'r cyfrif, mae'r pleidleisiau hyn yn trosglwyddo wedyn i ymgeiswyr pleidiau eraill yn ôl cyfran pleidleiswyr y blaid honno a ddywedodd wrth Astudiaeth Etholiad Cymru 2011 eu bod yn ystyried mai plaid arall yw eu hail ddewis.

Etholaethau	Canlyniadau a Amcangyfrifir
Ynys Môn/Arfon	2 Plaid, 1 Llafur, 1 Ceidwadol
Aberconwy/Dwyfor Meirionnydd	2 Plaid, 1 Ceidwadol, 1 Llafur
Gorllewin Clwyd/Dyffryn Clwyd	2 Ceidwadol, 2 Llafur
Delyn/Alun a Glannau Dyfrdwy	3 Llafur, 1 Ceidwadol
Wrecsam/De Clwyd	2 Llafur, 1 Ceidwadol, 1 Plaid
Sir Drefaldwyn/Aberhonddu a Maesyfed	2 Democrat Rhyddfrydol, 2 Ceidwadol
Ceredigion/Preseli Penfro	1 Plaid, 1 Ceidwadol, 1 Democrat Rhyddfrydol, 1 Llafur
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr/Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro	2 Plaid, 1 Llafur, 1 Ceidwadol
Llanelli/Gŵyr	2 Llafur, 1 Plaid, 1 Ceidwadol
Dwyrain Abertawe/Gorllewin Abertawe	2 Llafur, 1 Ceidwadol, 1 Plaid
Castell-nedd/Aberafan	3 Llafur, 1 Plaid
Pen-y-bont ar Ogwr/Ogwr	3 Llafur, 1 Ceidwadol
Rhondda/Cwm Cynon	3 Llafur, 1 Plaid
Pontypridd/Bro Morgannwg	2 Llafur, 1 Ceidwadol, 1 Plaid
Gorllewin Caerdydd/Gogledd Caerdydd	2 Llafur, 2 Ceidwadol
Canol Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth	2 Llafur, 1 Democrat Rhyddfrydol, 1 Ceidwadol
Merthyr/Caerffili	3 Llafur, 1 Plaid
Blaenau Gwent/Islwyn	3 Llafur, 1 Plaid
Dwyrain Casnewydd/Gorllewin Casnewydd	2 Llafur, 1 Ceidwadol, 1 Democrat Rhyddfrydol
Trefynwy/Torfaen	2 Llafur, 2 Ceidwadol

Cyfansymiau Terfynol:



Byddai Llafur yn ennill hanner y seddi (fel y gwnaeth yn yr etholiad yn 2011) ac yn gwneud yn well nag yn yr amcan bras ar gyfer STV pedwar aelod mewn Cynulliad â 60 sedd. Mae hyn, yn fwy na thebyg, gan y byddai cyfran fwy Llafur yn Ne Cymru'n cael ei hadlewyrchu'n fwy yn y seddi llai, a byddai'n ennill tair o'r pedair sedd yn amlach nag y byddai mewn 60 sedd. Mae'r model hwn yn debyg o gyfrannol i'r system bresennol, ond mae'n rhoi'r Democratiaid Rhyddfrydol dan anfantais. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ffodus o fod wedi ennill rhai o'u seddi rhestr dan y system gyfredol yn 2011.

Asesiad

Cyfranoliaeth

Y mwyaf cyfrannol o'r systemau yw'r dewis rhestr genedlaethol heb drothwy. Y lleiaf cyfrannol yw'r system FPTP dau aelod. Fodd bynnag, o ran cyfranoliaeth, mae pob system arall ar wahân i FPTP yn dderbyniol.

Cyfraniad at Lywodraeth Sefydlog

Byddai'r 30/30 AMS gyda rhestr genedlaethol, heb drothwy, yn achosi anawsterau wrth adeiladu clymblaid. Ni fyddai Llafur yn gallu ffurfio clymblaid mwyafrifol gydag unrhyw un y tu allan i Blaid Cymru gyda'r dewis hwn.

Byddai system FPTP dau aelod yn sicrhau mwyafrif i Lafur, a hynny fel petai am byth oni bai bod sigladau enfawr yn erbyn Llafur (ac mae perfformiad SNP yn etholiadau Senedd yr Alban yn 2011 yn rhybudd rhag hunanfoddhad yma). Fodd bynnag, byddai diffyg craffu neu wrthwynebiad effeithiol yn goresgyn y 'sefydlogrwydd' hwn mewn sefydliad bach fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ystyried bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes wedi gweithredu o dan ddwy lywodraeth lleiafrif a dwy wahanol glymblaid, mae pob dewis arall yn dderbyniol o ran sefydlogrwydd ac maent yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth deg o ddewisiadau clymblaid. Byddai system STV pedwar aelod gydag 80 sedd yn rhoi hanner seddi'r Cynulliad i'r Blaid Lafur, fel y mae ar hyn o bryd.

Atebolrwydd i Etholwyr

Mae systemau STV a FPTP yn sgorio'n well yma na systemau gyda rhestri caeedig, gan fod pob ymgeisydd yn wynebu'r etholaeth ar yr un sail – ond gyda system FPTP dylid cydbwyso'r farn hon â nifer y seddi diogel a'r diffyg cynrychiolaeth i farn y lleiafrif y mae system fwyafrifyddol yn eu cynnwys. System AMS gyda rhestr genedlaethol yw'r lleiaf atebol, oherwydd prin y byddai aelodau rhestr genedlaethol yn atebol i etholaeth mor fawr, a dim ond i'r blaid a'r aelodau plaid sy'n eu dewis y byddent yn atebol go iawn.

Cyfatebiaeth i Hunaniaeth Gymunedol

Bydd y newidiadau arfaethedig i San Steffan yn cael effaith sylweddol yng Nghymru yn eu cyfatebiaeth i hunaniaeth gymunedol oherwydd, er mwyn bodloni'r cwota tynn, mae'n anochel y bydd yn rhaid i wardiau

gael eu hollti i ardaloedd nad oes ganddynt yr un cyswllt hanesyddol â hwy. Bydd hyn hefyd yn wir am etholaethau'r Cynulliad os ydynt yn gysylltiedig eto â rhai San Steffan, ac felly unrhyw etholaethau model newydd sy'n dilyn model San Steffan. Mae'n debygol y bydd system STV pedwar aelod yn paru'r etholaethau newydd yn gwaethygu problem wardiau anaddas mewn gwahanol gymunedau.

Bydd system FPTP dau aelod yn adlewyrchu cymunedau lle yn deg, ond hynny am bris ymyleiddio buddiannau amrywiol yn yr etholaethau hynny. Fel y digwyddir yn San Steffan, byddai pleidiau'n cystadlu am ambell sedd ymylol ac yn targedu eu polisïau a'u maniffestos yn unol â hynny. Byddai perygl anwybyddu barn mwyafrif helaeth y pleidleiswyr mewn seddi diogel, a hynny yn seddi diogel pob plaid.

Mae'r rhestri atodol yn gwneud iawn am ymyleiddio'r buddiannau hynny, ond ar draul peth pellter rhwng etholwyr a'u cynrychiolwyr. Mae'r pris hwn yn llai ar gyfer rhestri rhanbarthol, lle mae cyfatebiaeth gyffredinol i hunaniaeth ranbarthol ehangach (fel Gogledd Cymru neu'r hen Went yn rhanbarth y De-ddwyrain), na'r rhestr genedlaethol lle mae hunaniaeth ranbarthol yn cael ei hymyleiddio o blaid rhestr genedlaethol fawr gyda nifer mawr o aelodau. Mae gan system STV pedwar aelod, ar gyfer 60 sedd ac 80 sedd (ond yn enwedig yr ail), y fantais o gydbwyso cymuned lle ehangach â chymunedau buddiant oherwydd cymhwyso ei chyfranoliaeth fwy ar lefel fwy lleol.

Cyfateb Ffiniau i Etholiadau Eraill

Bydd cysylltu etholaethau'r Cynulliad ag etholaethau San Steffan yn gwneud map llai dryslyd o ffiniau amlhaenog gyda gwahanol feysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Bydd etholwyr yn uniaethu'n agosach â'u cynrychiolwyr gwleidyddol ar draws haenau'r Cynulliad a San Steffan. Bydd hefyd yn haws trefnu ble mae'r ardaloedd perthnasol yn gydffiniol. Yn hyn o beth, byddai o fantais dilyn ffiniau San Steffan.

Sefydlogrwydd Etholaethau Dros Amser

Oherwydd ei ffocws ar gydraddoldeb rhifol i etholwyr cofrestredig, bydd newid poblogaeth yn golygu y bydd yn rhaid newid ffiniau newydd San Steffan yn rheolaidd, a hynny am bob tymor etholiad seneddol pum mlynedd, yn ôl pob tebyg. Byddai hyn yn effeithio ar unrhyw un o'r systemau etholiadol, sy'n cael eu hadeiladu'n seiliedig ar fodel 30-sedd San Steffan.

Byddai dadgyplu ffiniau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n golygu na fyddai angen hyn a byddai'r ffiniau'n newid fesul tri thymor Cynulliad (weithiau dau), ac felly byddai'n caniatáu mwy o sefydlogrwydd ffiniau dros amser. O'r dewisiadau a ddadansoddwyd, byddai hyn yn wir o'r system bresennol, sef system STV pedwar aelod mewn Cynulliad 80-sedd.

Argymhellion

Os yw etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan am barhau wedi'u dadgyplu, ac os oes angen cynyddu cynhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Gymdeithas Newid Etholiadol yn cytuno â Chomisiwn Richard o ran argymell Cynulliad 80-sedd a etholir drwy STV. Byddai pariadau o etholaethau cyfredol y Cynulliad yn 20 o etholaethau pedwar aelod yn ffordd syml o wneud hyn.

Os yw etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gael eu cyplu ag etholaethau newydd San Steffan, cred y Gymdeithas Diwygio Etholiadol mai AMS gyda 30 o seddi

etholaethol a 30 o seddi rhestr yw'r ffordd symlaf o gydbwyso gwahanol ystyriaethau ac anghenion system bleidleisio'r Cynulliad.

Fodd bynnag, byddai'r model STV pedwar aelod ar gyfer Cynulliad 60-sedd hefyd yn caniatáu ar gyfer cynrychioli amrywiaeth barn mewn etholaethau lleol mwy ac yn cynyddu dewis a chystadleuaeth yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; serch hynny, anodd yw rhagweld effaith defnyddio ffiniau newydd San Steffan, sy'n newid yn aml, yn y model hwn. ■